# Cynllun Cynefin Cymru 2025 - Tiroedd Comin Safonau Dilysadwy

*Safonau dilysadwy a chanllawiau ar gyfer dosbarthu methiannau:*

**Cynllun Cynefin Cymru 2025 - Tiroedd Comin**

**Fersiwn 1.0**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

*Dylid defnyddio'r ddogfen hon ar cyd a Matrics Cosbau Cymru i ddiffinio'r Difrifoldeb, Rhychwant a Parhad y cosbau.

| **Gofyniad - Cyffredinol** | | | |
|---|---|---|---|
| Cymryd cyfrifoldeb am reoli a rheolaeth dros holl dir y contract er mwyn gallu cyflawni rhwymedigaethau'r contract. Rhaid amlinellu ffin y Contract yn ffisegol.<br><br>Cynnal isafswm o 80% o borwyr actif ar dir y contract drwy gydol cyfnod y contract.<br><br>Yr opsiynau:<br><br>1) Rheoli Lefelau Stocio (Stocio Safonol a Stocio Hyblyg) – Rhaid cadw dyddiadur stocio dyddiol (ar daenlen) o symudiadau da byw ar dir y contract ac oddi arno.<br><br>2) Cyfnod Caeedig y Gaeaf – Rhaid cadw dyddiadur stocio (ar daenlen) yn nodi symudiadau da byw oddi ar dir y contract ar ddechrau cyfnod caeedig y gaeaf a phan fydd y da byw wedi cael eu symud yn ôl i dir y contract.<br><br>Cadw cofnod (ar daenlen) o fanylion yr aelodau a'r porwyr actif eraill ar dir y contract. | | | |
| **Disgrifiad o'r Tor-amod** | **Difrifoldeb** | **Rhychwant** | **Parhad** |
| Lle nad oes ffin ffisegol yn bodoli ac nad yw'r ffin wedi'i marcio'n briodol. | **Isel** | **Rhychwant 1** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| Ni chynhaliwyd isafswm o 80% o borwyr actif drwy gydol cyfnod y contract. | **Isel** - llai nag 80% ond mwy na 75%.<br><br>**Canolig** - llai na, neu'n gyfwerth â 75% ond mwy na 50%.<br><br>**Uchel** - llai na 50% neu'n hafal i hynny | **Rhychwant 4** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rheoli Opsiynau Lefelau Stocio – Heb gadw dyddiadur stocio digonol.<br><br>Neu<br><br>Opsiwn ar gyfer Cyfnod Caeedig y Gaeaf – Heb gadw dyddiadur stocio digonol. | **Isel** – methiant i gofnodi manylion cywir am un symudiad anifeiliaid.<br><br>**Canolig** – methiant i gofnodi mwy nag un symudiad anifeiliaid yn gywir.<br><br>**Uchel** – Dim cofnodion neu dim cofnod ar gael ar gais. | **Rhychwant 1**<br><br><br><br><br>**Rhychwant 4 -** (Dim cofnodion neu dim cofnodion ar gael ar gais – Tor-amod difrifol uchel yn unig). | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| Heb gadw cofnod o fanylion yr aelodau na'r porwyr actif eraill. | **Isel** – Cadwyd cofnod o'r holl aelodau a'r porwyr actif ond daethpwyd ar draws anghysondebau (yn yr arolygiad).<br><br>**Canolig** – Cofnodion ar gael ond nid ydynt yn rhoi manylion yr holl aelodau a'r porwyr actif.<br><br>**Uchel** – Dim cofnodion neu dim cofnod ar gael ar gais. | **Rhychwant 1**<br><br><br><br><br><br><br><br>**Rhychwant 4 -** (Dim cofnodion neu dim cofnodion ar gael ar gais – Tor-amod difrifol uchel yn unig). | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |

| **Gofyniad – Y Cod Tir Comin** | | | |
|---|---|---|---|
| Cadwch holl ffiniau traddodiadol presennol gan gynnwys cloddiau pridd, waliau cerrig sychion, gwrychoedd a ffensys llechi.<br>Cadwch holl nodweddion archeolegol a hanesyddol gan gynnwys cloddiau, meini hirion, bryngaerau, tomenni claddu, cytiau crwm, corlanau defaid a chuddfannau hela’r grugiar.<br>Cadwch yr holl safleoedd daearegol a nodweddion craig gan gynnwys clogwyni, cerrig brig, sgri a cherrig mân.<br>Peidiwch â gosod unrhyw systemau draenio na ffosydd newydd nac addasu/ailagor unrhyw systemau draenio neu ffosydd presennol.<br>Peidiwch â thorri na thynnu unrhyw fawn neu waddodion oni bai fod yr hawliau gan yr ymgeisydd i wneud hynny.<br>Peidiwch â chreu rhigolau yn y tir drwy ddefnyddio peiriannau’n amhriodol.<br>Dim ond yn unol â rheoliadau llosgi Grug a Glaswellt y mae caniatâd i losgi. Peidiwch â llosgi gorgors. Cyn mynd ati i losgi ar unrhyw SDdGA, Ardal Cadwriaeth Arbennig neu Ardal Gwarchodaeth Arbennig, mae angen caniatâd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.<br>Cynnal yr holl goetiroedd a phrysgwydd brodorol presennol, pyllau dŵr, pyllau dŵr tymhorol, afonydd a nentydd.<br>Ni chaniateir troi’r pridd, trin y tir nac ail-hau ac eithrio ar dir pori presennol sydd wedi’i wella neu dir wedi’i drin.<br>Ni chaniateir defnyddio calch, gwrtaith anorganig ac organig (gan gynnwys tail neu slag) ac eithrio ar dir pori presennol sydd wedi’i wella neu dir wedi'i drin.<br>Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol sy’n ymwneud â hawliau tramwy cyhoeddus presennol sydd ar y tir, gan gynnwys peidio â’u rhwystro. Rhaid caniatáu mynediad ar droed i'r holl dir y nodwyd ei fod ar gael ar gyfer mynediad o'r fath ar y mapiau a baratowyd o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.<br>Cydymffurfio â’r gofynion ar borthi atodol ar yr holl dir contract.<br>Mae rhai adrannau o’r safonau dilysadwy hyn yn destun gofynion trawsgydymffurfio penodol. Bydd cyfeiriad at y gofynion hyn yn cael ei restru yn erbyn y tor-amodau. | | | |
| **Disgrifiad o’r Tor-amod** | **Difrifoldeb** | **Rhychwant** | **Parhad** |
| Tystiolaeth nad yw’r ffiniau traddodiadol presennol wedi cael eu cadw. | **Isel** – Hyd at 50m<br>**Canolig** – 50-100m<br>**Uchel** – 100m a mwy | **Rhychwant 1** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tystiolaeth nad yw nodweddion archeolegol a hanesyddol gan gynnwys cloddiau, meini hirion, bryngaerau, tomenni claddu, cytiau crwm, corlannau defaid a chuddfannau hela'r grugiar wedi cael eu cadw. | **Canolig** – lle nad yw'r difrod sydd wedi digwydd yn effeithio ar gyfanrwydd y nodwedd.<br><br>**Uchel** – wedi dinistrio, dileu neu ddifrodi nodweddion sy'n effeithio ar gyfanrwydd y nodwedd. | **Rhychwant 4** | **Parhaol**<br>**Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2** |
| Tystiolaeth nad yw safleoedd daearegol a nodweddion creigiog, gan gynnwys clogwyni, cerrig brig, sgri a cherrig mân, wedi cael eu cadw. | **Canolig** – lle nad yw'r difrod sydd wedi digwydd yn effeithio ar gyfanrwydd y nodwedd.<br><br>**Uchel** – wedi dinistrio, dileu neu ddifrodi nodweddion sy'n effeithio ar gyfanrwydd y nodwedd. | **Rhychwant 4** | **Parhaol**<br>**Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2** |
| Tystiolaeth o borthi atodol amhriodol | **Lleiafswm – Llythyr Rhybudd -** tystiolaeth o borthi atodol ond dim difrod<br><br>**Canolig** – tystiolaeth o borthi atodol a difrod i dir cynefin e.e. nitreiddio pridd drwy sathru<br><br>**Uchel -** Porthi atodol anaddas iawn lle mae difrod i dir cynefin na ellir ei adfer i'w gyflwr gwreiddiol erbyn diwedd y tymor tyfu. | **Rhychwant 1** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth bod llosgi wedi digwydd ac nad yw wedi digwydd yn unol â'r Rheoliad Llosgi Grug a Glaswellt (2008) a'r cod Llosgi Grug a Glaswellt | **Mesuradwy** – Tystiolaeth o losgi ar ardal â maint o 1ha neu lai. | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Uchel –** Tystiolaeth o losgi ar ardal sy'n fwy na 1ha o ran maint. | | |
| Tystiolaeth bod draeniau neu ffosydd newydd wedi cael eu gosod neu fod systemau draenio neu ffosydd presennol wedi cael eu haddasu. | **Isel** – Hyd at 50m<br>**Canolig** – 50-100m<br>**Uchel** – 100m a mwy | **Rhychwant 1** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth bod mawn neu waddod wedi cael ei symud pan nad oes gan yr ymgeisydd hawliau i wneud hynny. | **Uchel** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth bod rhigolau wedi cael eu hachosi gan ddefnydd amhriodol o beiriannau. | **Isel** – Hyd at 1ha<br>**Canolig** – 1-3ha<br>**Uchel** – 3ha a mwy | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth nad yw coetiroedd a phrysgwydd brodorol, pyllau dŵr, pyllau dŵr tymhorol, afonydd a nentydd wedi cael eu cynnal. | **Uchel** | **Rhychwant 4** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth bod gwaith aredig, trin y tir a/neu ail-hadu amhriodol wedi digwydd. | **Mesuradwy** – 1ha neu lai.<br><br>**Uchel** – Mwy nag 1ha | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth bod gwrtaith calch, anorganig neu organig wedi cael ei ddefnyddio ar dir contract. | **Mesuradwy** – 1ha neu lai<br><br>**Uchel** – Mwy nag 1ha | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth o beidio â bodloni gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â Hawliau Tramwy Cyhoeddus presennol o dan ddarpariaethau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. | **Canolig** | **Rhychwant 1** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2** |

| Gofyniad – Rheoli Lefelau Stocio | | | |
|---|---|---|---|
| **Dull Lefel Stocio Safonol**<br><br>Cyfrifir y lefelau stocio uchaf bob chwarter a byddant yn cael eu darparu mewn Unedau Da Byw yn Adran 4 ffurflen gais Tir Comin Glastir. Bydd y Gymdeithas Bori yn ymrwymo i gadw ar neu islaw'r lefelau stocio chwarterol uchaf bob dydd yn ystod y chwarter. Nid cyfartaledd yw'r lefelau stocio hyn, ond terfyn uchaf, na ellir mynd y tu hwnt iddo ar unrhyw ddiwrnod. Dyma'r cyfnodau chwarterol:<br>1 Ionawr i 31 Mawrth<br>1 Ebrill i 30 Mehefin<br>1 Gorffennaf i 30 Medi<br>1 Hydref i 31 Rhagfyr<br><br>**Dull Lefel Stocio Hyblyg**<br>Er mwyn dangos bod y gofynion stocio hyblyg yn cael eu bodloni, rhaid i'r Gymdeithas Bori gwblhau amserlen stocio i'r dyfodol. Rhaid i'r Gymdeithas Bori ymrwymo i beidio â mynd y tu hwnt i'r nifer uchaf o unedau da byw a nodir yn yr atodlen stocio i'r dyfodol ar unrhyw ddiwrnod ar dir y contract hwnnw. | | | |
| **Disgrifiad o'r Tor-amod** | **Difrifoldeb** | **Rhychwant** | **Parhad** |
| Tystiolaeth o fynd y tu hwnt i'r lefelau stocio uchaf. | **Isel** – naill ai, llai na 3% o gyfanswm yr unedau da byw a ragnodir neu hyd at 5 o unedau da byw (pa un bynnag yw'r nifer isaf o unedau da byw).<br><br>**Canolig** – naill ai, mwy na 3% a llai na 5% o gyfanswm yr unedau da byw a ragnodir neu fwy na 5 a llai na 15 o unedau da byw (pa un bynnag yw'r nifer isaf o unedau da byw).<br><br>**Uchel** – naill ai, mwy na 5% o gyfanswm yr unedau da byw a ragnodir neu fwy na 15 o unedau da byw (pa un bynnag yw'r nifer isaf o unedau da byw). | **Rhychwant 4** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |

| Gofyniad – Rheoli Lefelau Stocio | | | |
|---|---|---|---|
| <u>Opsiwn Cyfnod Caeedig y Gaeaf</u><br><br>Rhaid i’r Gymdeithas Bori ymrwymo i sicrhau bod yr holl dda byw yn cael eu symud o dir y contract am gyfnod parhaus a bennwyd ymlaen llaw rhwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth bob blwyddyn. Os bydd y Gymdeithas Pori yn dymuno newid dyddiad dechrau’r cyfnod caeedig yn y blynyddoedd dilynol, yna mae’n rhaid iddynt roi gwybod yn ysgrifenedig i Lywodraeth Cymru am y dyddiad newydd o leiaf 30 diwrnod cyn y bydd disgwyl i’r cyfnod heb stoc ddechrau. | | | |
| **Disgrifiad o’r Tor-amod** | **Difrifoldeb** | **Rhychwant** | **Parhad** |
| Tystiolaeth na chafodd yr holl stoc ei symud o dir y contract yn ystod y 90 diwrnod o Gyfnod Caeedig y Gaeaf sydd yn y contract. | **Isel –** hyd at 5 uned o dda byw.<br><br>**Canolig –** mwy na 5 a llai na 15 uned o dda byw.<br><br>**Uchel** – mwy na 15 uned o dda byw. | **Rhychwant 4** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth na roddwyd gwybod i Lywodraeth Cymru o leiaf 30 diwrnod cyn unrhyw newidiadau i’r cyfnod heb stoc y cytunwyd arno. | **Canolig** | **Rhychwant 4** | **Modd ei gywiro 1 –** llai na 30 diwrnod o hysbysiad ond wedi rhoi hysbysiad cyn dechrau’r cyfnod heb stoc.<br>**Modd ei gywiro 2 –** hysbysiad yn ystod y cyfnod heb stoc y cytunwyd arno.<br>**Parhaol –** heb dderbyn hysbysiad, wedi cael hysbysiad ar ôl i’r cyfnod heb stoc y cytunwyd arno ddod i ben, neu fod Llywodraeth Cymru wedi ei nodi cyn i unrhyw hysbysiad gael ei wneud. |

| Gofyniad – Hysbysiadau o newidiadau posibl i gontract | | | |
|---|---|---|---|
| Rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru o fewn 30 diwrnod i unrhyw werthiant neu drosglwyddiad tir yn y Contract neu pan nad yw’r Gymdeithas Bori bellach yn bodloni’r gofyniad ar gyfer 80% o Borwyr Actif. | | | |
| **Disgrifiad o’r Tor-amod** | **Difrifoldeb** | **Rhychwant** | **Parhad** |
| Mae’r contract yn ei gwneud yn ofynnol i roi gwybod am werthiannau a throsglwyddiadau o fewn 30 diwrnod. | **Isel** - Cafwyd hysbysiad, ond nid o fewn 30 diwrnod.<br>**Canolig -** Heb dderbyn hysbysiad. | **Rhychwant 1** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| Methiant i hysbysu Llywodraeth Cymru o newidiadau i aelodaeth y Gymdeithas Bori o fewn 30 diwrnod i fynd o dan y lefel hon | **Isel** | **Rhychwant 4** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |

# Taliadau Rheoli Ychwanegol

| **Taliad Rheoli Ychwanegol Opsiwn 400 – Rheoli Stoc** | | | |
|---|---|---|---|
| Cydymffurfio â chynllun rheoli stoc y cytunwyd arno gyda'ch rheolwr contractau. | | | |
| **Disgrifiad o'r Tor-amod** | **Difrifoldeb** | **Rhychwant** | **Parhad** |
| Tystiolaeth na chydymffurfiwyd â'r cynllun rheoli stoc | **Canolig** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |

| **Taliad Rheoli Ychwanegol Opsiwn 401 – Pori Cymysg** | | | |
|---|---|---|---|
| Rhaid i o leiaf 30% o'r unedau da byw fod yn wartheg sy'n pori ym mhob blwyddyn galendr. Rhaid i o leiaf 15% o'r unedau da byw fod yn ddefaid sy'n pori ym mhob blwyddyn galendr | | | |
| **Disgrifiad o'r Tor-amod** | **Difrifoldeb** | **Rhychwant** | **Parhad** |
| Tystiolaeth na lynwyd wrth yr unedau isaf o dda byw | **Isel** – naill ai, llai na 3% o gyfanswm yr unedau da byw a ragnodwyd neu hyd at 5 o unedau da byw (pa un bynnag yw'r nifer isaf o unedau da byw).<br>**Canolig** – naill ai, mwy na 3% a llai na 5% o gyfanswm yr unedau da byw a ragnodir neu fwy na 5 a llai na 15 o unedau da byw (pa un bynnag yw'r nifer isaf o unedau da byw).<br>**Uchel** – naill ai, mwy na 5% o gyfanswm yr unedau da byw a ragnodwyd neu fwy na 15 o unedau da byw (pa un bynnag yw'r nifer isaf o unedau da byw). | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |

| Taliad Rheoli Ychwanegol Opsiwn 411 – Lleihau Stocio | | | |
|---|---|---|---|
| Cydymffurfio â’r cynllun pori sy’n rhoi manylion y gostyngiad ychwanegol sydd ei angen yn y stoc. | | | |
| **Disgrifiad o’r Tor-amod** | **Difrifoldeb** | **Rhychwant** | **Parhad** |
| Tystiolaeth na chydymffurfiwyd â’r cynllun pori | **Canolig** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |